# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol – Cyfardod Cyffredinol Blynyddol
# Cross Party Group on Hospices & Palliative Care – AGM

11 Hydref 2017 - 12-13:30, Ystafell Briffio'r Cyfryngau
11 October 2017 12-13:30, Media Briefing Room

## Cofnodion

## Yn bresennol

Mark Isherwood AC, Suzy Davies AC, Des Brown (Marie Curie), Kathleen Caper (Hospice UK), Carol Davies (BASW Cymru), Catrin Edwards (Hospice UK), Paul Harding (Marie Curie), Laura Hugman (Sefydliad Paul Sartori) , Toby Jones (Ymchwilydd), Carol Killa (Tŷ Hafan), Tracy Livingstone (Hosbis Tŷ'r Eos), Trystan Pritchard (Hosbis Dewi Sant), Greg Pycroft (Macmillan), Monica Reardon (Marie Curie), Emma Saysell (Sefydliad Dewi Sant) , Veronica Snow (Llywodraeth Cymru), Sophie Thomas (Sefydliad Paul Sartori), Grant Usmar (Hosbis y Cymoedd), Mike Walsh (Hosbis y Ddinas)

## Ymddiheuriadau:

Iain Mitchell (Hosbis Sant Kentigern)

## 1. Croeso gan y Cadeirydd (MI)

Croesawodd Mark y Grŵp i'r cyfarfod cyntaf ers ei gofrestru. Nodwyd bod y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ystod Wythnos Gofal Hosbis.

## 2. Cynllun gwaith 2017-18 - Ysgrifenyddiaeth (CE)

Bydd y Grŵp yn parhau i roi lle i waith adweithiol a gyflwynir gan yr aelodau.

Bydd gwaith rhagweithiol yn mynd rhagddo’n seiliedig ar ymchwiliad blwyddyn o hyd: 'Anghydraddoldebau mewn mynediad i hosbisau a gofal lliniarol: heriau a chyfleoedd'.

- Cais agored am dystiolaeth ysgrifenedig rhwng diwedd mis Hydref a 30 Tachwedd 2017.

Hospice UK, Hospice House, 34 - 44 Stryd Britannia, Llundain WC1X 9JG
**Ffôn:** 0032 2 226 6692 020 7278 1021 **E-bost:** info@hospiceuk.org
www.hospiceuk.org

Cwmni Cyfyngedig trwy Warant, a Gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif 2751519,
Elusen a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif 1014851 ac yn yr Alban Rhif SC041112. TAW Rhif 731 304476, swyddfa gofrestredig fel yr uchod.

- Gwahoddir rhanddeiliaid allweddol i roi tystiolaeth lafar i'r Grŵp (yn y ddau gyfarfod nesaf).
- Digwyddiad bwrdd crwn - trafodaethau manwl ar y themâu a ddaw i'r amlwg, gan gynnwys cynrychiolaeth o blith clinigwyr.
- Adroddiad ac argymhellion i'w cyhoeddi yn yr haf 2018. Dylai hyn nodi meysydd y dylid ymchwilio'n fanwl iddynt yn ogystal â chamau i'r Grŵp eu cymryd.

Bydd yr ymchwiliad yn cynnwys hosbisau a gofal lliniarol i blant ac oedolion.

Bydd yr ymchwiliad yn ymdrin â'r ddarpariaeth drawsffiniol; gwahoddir hosbisau yn Lloegr sy'n gwasanaethu poblogaeth Cymru i gymryd rhan yn yr ymchwiliad.

### CE: anfon y cais am dystiolaeth at yr aelodau cyn gynted ag y bo modd.

### Pawb: anfon y cais am dystiolaeth at gysylltiadau.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf gan Hosbisau Cymru - TP

Mae'r Grŵp wedi bod yn ystyried materion cyffredin i weithio tuag atynt ac i'w blaenoriaethu yn ystod y flwyddyn sy'n dod:

- Cyfrannu at yr ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol
- Cyllid. 18%, ar gyfartaledd, o gyllid y sector oedlion sy'n dod o ffynonellau statudol, ac mae'r sector plant hyd yn cael llai na hyn oed yn llai. Mae angen gweithio tuag at drefniant cyllido cynaliadwy. Nid yw'r canlyniadau bob amser yn glir o ran gwasanaethau a gomisiynir.
- Mesur canlyniadau: bydd yn ceisio datblygu mesurau ystyrlon. Bydd hyn yn creu sail dystiolaeth glir wrth wneud cais am gyllid. Mae angen consensws gwell ledled Cymru o ran yr hyn sy'n cael ei fesur. Dylai mesurau gynnwys canlyniadau i bobl.
- Ehangu mynediad i bobl â diagnosis gwahanol i ganser: mae sefyllfa gofal lliniarol pediatrig yn well na'r sefyllfa ym maes gofal lliniarol i oedolion yn y cyswllt hwn. Bydd yn bwysig meithrin perthynas well â gweithwyr proffesiynol sy'n cyfeirio cleifion at y gwasanaethau hyn.
- Cymorth i ofalwyr: mae'n hanfodol er mwyn galluogi pobl i ddewis lle y maent yn marw. Gofal seibiant - cadw teuluoedd gyda'i gilydd. Mae angen hyfforddiant i helpu gofalwyr i ddarparu gofal.

## 4. 'Gofal Hosbis yng Nghymru 2017', adroddiad Hospice UK - CE

Rhannwyd a chyflwynwyd yr adroddiad.

### CE: anfon copi o'r adroddiad at holl Aelodau'r Cynulliad.

## 5. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Etholwyd Mark Isherwood yn Gadeirydd a hynny'n unfrydol ac yn ddiwrthwynebiad.

Etholwyd Catrin Edwards, Hospice UK, yn Ysgrifennydd.

## 6. Unrhyw fater arall

Mae MI wedi bod yn llwyddiannus yn y balot i gyflwyno Datganiad 90 Eiliad yn y Cyfarfod Llawn. Bydd yn manteisio ar y cyfle i godi ymwybyddiaeth Aelodau'r Cynulliad o Wythnos Gofal Hosbis a chasgliadau adroddiad 'Gofal Hosbis yng Nghymru 2017'.

## 7. Y cyfarfod nesaf

Dydd Mercher, 17 Ionawr 12-13:30 yn y Senedd

Dydd Gwener 23 Mawrth, 12-13: 30 ym Mhrifysgol Glyndŵr